**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

Drwy e-bost

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Dawn,

**Craffu ar darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi bod yn ymgymryd â gwaith craffu cyffredinol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Ar ôl cymryd tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gofynnwyd cwestiynau am gynigion Llywodraeth Cymru, hoffem hefyd roi cyfle i chi gyfrannu at ein trafodaethau. Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn am y materion a ganlyn:

- Pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi penderfyniad am sefydlu Awdurdod Darlledu Cysgodol?
- Os na fydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Awdurdod Darlledu Cysgodol, a fydd yn ailddyrannu dyraniadau penodol y gyllideb a fwriedir at y diben hwnnw yn uniongyrchol i bolisïau eraill i wella’r ddarpariaeth o gyfryngau i Gymru?
- Beth yw barn Llywodraeth Cymru am ddigonolrwydd y ddarpariaeth cyfryngau darlledu i Gymru?
- Pa newidiadau polisi allweddol, os o gwbl, yr hoffai Llywodraeth Cymru eu gweld yn cael eu gwneud naill ai ar lefel Cymru neu'r DU i wella'r ddarpariaeth cyfryngau darlledu i Gymru?
- Beth yw barn Llywodraeth Cymru am ddatganoli darlledu?

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb cyn bo hir, a byddem yn hapus i gael unrhyw wybodaeth ychwanegol y dymunwch ei rhannu a fyddai’n berthnasol i'n gwaith.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.